# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 9 Mehefin 2015** |
| Amser: | **09.00 – 10.41** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar AC (Cadeirydd)**
**Mohammad Asghar (Oscar) AC**
**Mike Hedges AC**
**Sandy Mewies AC**
**Julie Morgan AC**
**Jenny Rathbone AC**
**Aled Roberts AC**

Tystion:

Staff y Pwyllgor:

**Michael Kay (Clerc)**
**Leanne Hatcher (Ail Glerc)**
**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**
**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Andrew Minnis (Ymchwilydd)**
**Stephen Martin (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Jeremy Morgan (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Dave Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies. Nid oedd dirprwy ar ei rhan.
1.3 Yn dilyn ethol Aelodau i'r Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Mehefin, diolchodd y Cadeirydd i William Graham am ei gyfraniad i'r Pwyllgor a chroesawodd Mohammad Asghar, a oedd yn dychwelyd i'r Pwyllgor.
1.4 Datganodd Sandy Mewies fuddiant fel Aelod o Gomisiwn y Cynulliad (eitem 2.1).

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.
2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd at gyllideb Comisiwn y Cynulliad pan fydd yn craffu ar gyfrifon blynyddol y Comisiwn yn nhymor yr hydref.

2.1 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan y Dirprwy Lywydd (1 Mehefin 2015)

## 3 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Trafod yr adroddiad drafft

3.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft, gan gytuno arno yn amodol ar rai mân newidiadau. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y mis.

## 4 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

4.1 Nododd yr aelodau y llythyr a gafwyd gan Dr Peter Higson (4 Mehefin) ynglŷn â gohirio'r cam o anfon yr adroddiad ar statws uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr at y Pwyllgor, a'r cyhoeddiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (8 Mehefin) bod mesurau arbennig wedi cael eu gosod ar y bwrdd iechyd fel rhan o Fframwaith Uwchgyfeirio GIG Cymru.

## 5 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

5.1 Nododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor, a'r sylwadau a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.
5.2 Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch argymhellion 1, 3, 7 ac 8.

## 6 Glastir: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

6.1 Nododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor, a'r sylwadau a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

6.2 Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch ymateb y Llywodraeth i argymhellion yr adroddiad.

## 7 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf

7.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei adroddiad diweddar.
7.2 Cytunodd yr Aelodau gynnal ymchwiliad byr i'r pwnc hwn.

## 8 Y flaenraglen waith: Rhaglen waith Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2015-16

8.1 Trafododd yr Archwilydd Cyffredinol ei raglen waith arfaethedig gyda'r Pwyllgor a chroesawodd yr awgrymiadau a'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan Aelodau.